# Gwybodaeth i’r Claf – Llid yr isgroen

Haint bacteriol y meinweoedd meddal sylfaenol o dan y croen yw llid yr isgroen. Yn bennaf mae'n effeithio ar yr aelodau (breichiau neu goesau); ac fel arfer yn datblygu o doriad yn y croen fel clwyf neu haint ffwngaidd, e.e. tarwden y traed.

Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn cael gwrthfiotigau trwy’r geg ac yn cael eu cynghori i orffwys a dyrchafu’r fraich/coes yr effeithir arno. Dylid cymryd y gwrthfiotigau fel y nodwyd gan ddilyn y cyfarwyddiadau ar y pecyn. Efallai y bydd angen i chi gymryd y gwrthfiotigau am hyd at 2 wythnos. Ni allwn ond cyflenwi dos wythnos ar y tro, felly ewch i weld eich Meddyg Teulu i gael presgripsiwn pellach cyn i’ch meddyginiaeth ddod i ben.

O bryd i'w gilydd fydd gwrthfiotigau mewnwythiennol (IV - roddir i mewn i wythïen) yn cael eu rhagnodi, a all gael ei weinyddu yn y cartref gan dîm o nyrsys arbenigol a elwir yn Tîm Ymateb Aciwt (ART).

Mewn rhai amgylchiadau, gall aros yn yr ysbyty yn cael ei argymell.

Dylech ddychwelyd i’r Adran D&A os:

- byddwch yn datblygu twymyn (tymheredd uchel) a mynd yn sâl
- ymddengys i’r cochni waethygu ac yn lledaenu ymhellach
- nad ydych yn gallu goddef y gwrthfiotigau

**Cyngor Pellach / Cyfarwyddiadau**

Defnyddiwch yr adran hon i roi gwybodaeth benodol i gleifion e.e. apwyntiadau dilynol neu gyngor ofal.

## Gwasanaethau Lleol

Bydd gwefan Galw Iechyd Cymru yn eich caniatau i chwilio am wasanaethau lleol yn eich ardal chi, fel Fferyllfeydd a Chlinigau Iechyd Rhywiol
http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/localservices/default.aspx?locale=cy

Os byddwch chi'n sâl, neu yn cael eich anafu, dewiswch y gwasanaeth cywir gan y GIG er mwyn sicrhau'r driniaeth orau. Mae ymgyrch Dewis Doeth yn esbonio beth mae pob gwasanaeth yn ei wneud a phryd y dylid ei ddefnyddio.

Bydd dewis yn ddoeth yn golygu eich bod chi a'ch teulu yn derbyn y driniaeth orau. Mae hefyd yn feddwl bod gwasanaethau prysur y GIG ar gael i gynorthwyo'r bobl sydd â'r angen mwyaf.

Os nad ydych yn sicr pa ddewis yw'r un cywir, a wnewch chi ffonio Galw Iechyd Cymru ar 0845 46 47 os gwelwch yn dda neu ewch at wefan dewis doeth www.dewisdoethcymru.org.uk

For further advice or information contact NHS Direct Wales 0845 46 47
www.nhsdirect.wales.nhs.uk

## CELLULITIS cont.

Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei gynhyrchu yn seiliedig ar daflenni gwybodaeth flaenorol a’r dystiolaeth sydd ar gael ar adeg cyhoeddi. Mae wedi cael ei adolygu'n glinigol, fodd bynnag, os ydych yn sylwi ar unrhyw beth y mae angen diweddaru neu ddiwygio, cysylltwch â ppi.team@wales.nhs.uk

Review date: September 2016